

Arolygiad o Wasanaeth Iechyd Meddwl y GIG (Dirybudd)

Ysbyty Llwynhelyg

Canolfan Bro Cerwyn

Ward St Caradog a Ward St Non

Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Dyddiad arolygu: 10-12 Mehefin 2019

Dyddiad cyhoeddi: 13 Medi 2019

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@gov.wales
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym.....	7
	Ansawdd profiad y claf	8
	Darparu gofal diogel ac effeithiol	16
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth	22
4.	Beth nesaf?	26
5.	Sut rydym yn arolygu gwasanaethau iechyd meddwl y GIG	27
	Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad	28
	Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol.....	29
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	30

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi cleifion wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol ar ansawdd y gofal

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dirybudd o wasanaeth iechyd meddwl Canolfan Bro Cerwyn ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ar noson 10 Mehefin 2019, a'r diwrnodau canlynol, sef 11 a 12 Mehefin. Ymwelwyd â'r safleoedd a'r wardiau canlynol yn ystod yr arolygiad hwn:

- Ward St Caradog – Iechyd meddwl aciwt i oedolion
- Ward St Non – Iechyd meddwl i oedolion hŷn

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau arolygydd o AGIC, dau adolygwr sy'n gymheiriaid clinigol (un ohonynt oedd yr adolygwr enwebedig o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl) ac un aelod o staff AGIC fel adolygwr llyng. Arweiniwyd yr arolygiad gan un o reolwyr arolygu AGIC.

Yn ystod yr arolygiad hwn, adolygwyd dogfennaeth i gleifion a gadwyd o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 er mwyn asesu cydymffurfiaeth â'r Ddeddf.

Ystyriodd AGIC i ba raddau y mae'r gwasanaeth yn cyrraedd y Safonau Iechyd a Gofal (2015). Lle y bo'n briodol, mae AGIC hefyd yn ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau'n cydymffurfio â'r Ddeddf Iechyd Meddwl (1983), y Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) (2010), y Ddeddf Galluedd Meddyliol (2005) a Threfniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid.

Ceir manylion pellach am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau o wasanaethau iechyd meddwl y GIG yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Gwelsom dîm ymroddedig o staff a oedd yn ymrwymedig i ddarparu gofal o safon uchel i'r cleifion. Gwelsom fod y staff yn dangos parch wrth ryngweithio â'r cleifion drwy gydol yr arolygiad.

Mae angen i'r bwrdd iechyd adolygu'r gwasanaeth cleifion mewnol a ddarperir ar gyfer iechyd meddwl oedolion, er mwyn sicrhau ei fod yn gallu darparu gofal ag urddas sy'n amserol i'w gleifion.

Nid oedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â phob agwedd ar y Safonau Iechyd a Gofal. Mae angen i'r bwrdd iechyd adolygu'r ffordd y rhoddir y Ddeddf Iechyd Meddwl a'r Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid ar waith.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd y staff yn dangos parch wrth ryngweithio ac ymgysylltu â'r cleifion
- Darparwyd amrywiaeth dda o therapïau a gweithgareddau i'r cleifion
- Gwaith tîm da a staff sy'n uchel eu cymhelliant
- Rheoli meddyginiaethau mewn ffordd ddiogel ac effeithiol
- Cwblhau archwiliadau a phrosesau clinigol
- Roedd y staff yn gadarnhaol am ddiwylliant cefnogol eu timau.

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Y ffordd y rhoddir y Ddeddf Iechyd Meddwl a Threfniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid ar waith
- Y trefniadau ar gyfer rhoi cymaint o annibyniaeth â phosibl i'r cleifion ar Ward St Non wrth ddefnyddio'r toiled a'r cyfleusterau ymolchi.
- Capasiti ei wasanaeth iechyd meddwl i gleifion mewnol sy'n oedolion
- Y wybodaeth a ddarperir ar y wardiau ar gyfer y cleifion.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Cefndir y gwasanaeth

Mae Canolfan Bro Cerwyn yn darparu gwasanaethau iechyd meddwl y GIG yn Ysbyty Llwynhelyg, Heol Abergwaun, Hwlfordd SA61 2PZ o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.

Mae gan y gwasanaeth ddwy ward rhyw cymysg, sef Ward St Caradog a Ward St Non. Mae Ward St Caradog yn ward iechyd meddwl i oedolion â 15 o welyau. Mae Ward St Non yn ward iechyd meddwl i bobl hŷn â 15 o welyau.

Mae pob ward yn cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys rheolwr y ward a dirprwy reolwr y ward, a thîm o nyrsys cofrestredig a gweithwyr cymorth gofal iechyd. Mae gan y ddwy ward dîm therapi galwedigaethol hefyd, sy'n cynnwys therapydd galwedigaethol ar bob ward, un technegydd therapi galwedigaethol ar Ward St Caradog a dau dechnegydd therapi galwedigaethol ar Ward St Non.

Mae'r wardiau'n cael eu cefnogi gan strwythurau clinigol a gweinyddol y bwrdd iechyd.

Ansawdd profiad y claf

Cawsom sgwrs â'r cleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.

Gwelsom y staff yn rhyngweithio ac yn ymgysylltu â'r cleifion yn briodol, gan eu trin ag urddas a pharch. Cadarnhaodd y cleifion y cawsom sgwrs â nhw fod hyn yn wir.

Rhoddwyd y cyfle i'r cleifion gynnal a datblygu sgiliau drwy raglenni gweithgareddau a rhaglenni amrywiol.

Mae angen ystyried y ffordd y rhoddir y Ddeddf Iechyd Meddwl a Threfniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid ar waith.

Cadw'n iach

Drwy gydol yr arolygiad, ar y ddwy ward, gwelsom fod y cleifion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau a therapïau yn rheolaidd. Roedd gan y ddwy ward therapydd galwedigaethol dynodedig a dau dechnegydd therapi galwedigaethol. Roedd y therapi galwedigaethol yn rhoi amrywiaeth briodol o asesiadau a gweithgareddau, yn yr ysbyty a'r gymuned, i'r cleifion ar y ddwy ward.

Roedd amrywiaeth o gyfleoedd Gweithgareddau Bywyd Beunyddiol ar y ddwy ward i gynorthwyo'r cleifion i ddatblygu gweithgareddau arferol, neu barhau â nhw, er mwyn hyrwyddo byw yn fwy annibynnol. Roedd y rhain yn cynnwys gweithgareddau gofal personol, paratoi byrbrydau, prydau bwyd a diodydd, ynghyd â symudedd a'r defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus. Roedd gan Ward St Caradog gegin therapi galwedigaethol a oedd yn cynnig cyfleuster hygyrch i'r cleifion er mwyn iddynt ymarfer a datblygu eu sgiliau.

Roedd y ddwy ward yn rhoi'r cyfle i'r cleifion gymryd rhan mewn gweithgareddau strwythuredig ac ad-hoc ar y ward ac o fewn gerddi'r cleifion. Fodd bynnag, roedd angen gwella'r ffordd y caiff ardal yr ardd ar Ward St Caradog ei chynnal a'i chadw. Roedd angen gosod caeadau ar y draeniau, am fod y rhain wedi cael eu gorchuddio gan gonau er mwyn atal y cleifion rhag baglu. Roedd llawer o farciau ar y wal allanol yn ardal yr ardd ac, er bod hyn ar raglen waith sydd wedi'i threfnu, mae angen ei flaenoriaethu.

Er mwyn cynorthwyo'r cleifion i barhau i wneud gweithgareddau corfforol, roedd y cleifion ar Ward St Caradog hefyd yn gallu defnyddio campfa ar y ward â chyfarpar ymarferion aerobig.

Roedd yn galonogol nodi bod y tîm therapi galwedigaethol ar Ward St Non yn datblygu'r defnydd o therapi ysgogi gwybyddol. Roedd amrywiaeth o gyfarpar addas ar gael a oedd yn addas i gleifion â dementia, a oedd yn cynnwys doliau empathi a chath robotig i gynnig therapi anifail anwes. Rhoddwyd gwybod i ni hefyd fod y tîm yn ymchwilio i ddatblygu therapi atgofion¹ ymhellach drwy ddefnyddio dyfeisiau electronig.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau'r canlynol:

- Caiff caeadau priodol eu rhoi ar y draeniau ar Ward St Caradog
- Caiff wal allanol yr ardd ar Ward St Caradog ei glanhau.

Gofal ag urddas

Drwy'r ysbyty cyfan, roedd yr holl staff a welsom yn rhyngweithio ac yn ymgysylltu â'r cleifion yn briodol, gan eu trin ag urddas a pharch.

Roedd y staff y cawsom sgwrs â nhw yn teimlo'n angerddol am eu rolau ac yn frwdfrydig ynghylch y ffordd yr oeddent yn cefnogi'r cleifion ac yn gofalu amdanynt.

Clywsom y staff yn siarad â'r cleifion mewn modd digynnwrf drwy gydol ein harolygiad, a gwelsom y staff yn trin y cleifion â pharch. Pan oedd cleifion yn mynd i fyny at aelodau o staff roeddent yn cael eu trin mewn ffordd gwrtais ac ymatebol. Roedd parch amlwg a chydberthnasau sicr cryf rhwng y staff a'r cleifion.

¹ Gall sesiynau atgofion fod yn allweddol i helpu pobl, yn enwedig y rheini sydd â Dementia, i gofio a rhannu eu hatgofion. Mae'r sesiynau hyn yn ei gwneud yn bosibl i bobl gyfathrebu a chymdeithasu wrth iddynt fyfyrar ar eu profiadau bywyd, a'u rhannu, mewn amgylchedd cefnogol.

Roedd gan y cleifion eu hystafelloedd gwely eu hunain, a oedd yn rhoi lefel dda o breifatrwydd iddynt ac yn helpu'r staff i gynnal urddas y cleifion. Roedd y cleifion yn gallu cloi drysau eu hystafelloedd gwely eu hunain, y gallai'r staff eu datgloi os oedd angen. Gwelsom nifer o ystafelloedd gwely ac roedd yn amlwg bod modd i'r cleifion bersonoli eu hystafelloedd gwely. Roedd digon o le i'r cleifion storio eu heiddo personol yn eu hystafelloedd.

Gwybodaeth i gleifion

Y tu allan i'r ddwy ward, roedd amrywiaeth eang o daflenni gwybodaeth perthnasol i gleifion, teuluoedd ac ymwelwyr eraill. Roedd yr ardaloedd hyn yn cynnwys gwybodaeth am faterion iechyd meddwl a llesiant corfforol, ochr yn ochr â gwybodaeth am sefydliadau a all gefnogi'r cleifion, eu teuluoedd a'u gofalwyr.

Roedd gwybodaeth ychwanegol yn cael ei harddangos ar y ddwy ward a oedd yn rhoi'r cyfle i'r cleifion gyfeirio at y wybodaeth hon. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw wybodaeth yn cael ei harddangos ar y naill ward na'r llall ynghylch proses Gweithio i Wella y GIG² ar gyfer codi pryder, canllawiau ynghylch deddfwriaeth iechyd meddwl na rôl na manylion cyswllt AGIC.

Ar Ward St Caradog, cawsom wybod bod yr hysbysfyrddau a oedd yn rhoi gwybodaeth am fwyta'n iach a llesiant yn yr ystafell fwyta wedi cael eu tynnu oddi yno yn ystod digwyddiad diweddar. Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y wybodaeth hon yn cael ei harddangos eto ar y ward.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod amrywiaeth o wybodaeth i gleifion yn cael ei harddangos ar y wardiau, gan gynnwys:

- Proses Gweithio i Wella y GIG
- Canllawiau ynghylch deddfwriaeth iechyd meddwl
- Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

² Gweithio i Wella yw'r broses ar gyfer rheoli pryderon pan fydd rhywun yn anhapus â'r gwasanaethau a ddarperir gan GIG Cymru. <http://www.wales.nhs.uk/sites3/w-home.cfm?orgid=932>

- Bwyta'n iach a llesiant.

Cyfathrebu'n effeithiol

Drwy arsylwi ar y rhyngweithio rhwng y staff a'r cleifion, roedd yn amlwg bod y staff yn sicrhau eu bod yn cyfathrebu'n briodol ac yn effeithiol â'r cleifion. Roedd y staff yn cymryd amser i gynnal trafodaethau, gan ddefnyddio geiriau ac iaith a oedd yn addas i'r claf unigol. Lle roedd y cleifion yn cael anhawster o hyd i egluro rhywbeth, neu lle roedd yr hyn roeddent yn ceisio ei gyfleu yn cael ei gamddeall, byddai'r staff yn gofyn yn amyneddgar am eglurhad o'r hyn yr oedd wedi'i ddweud.

Ar gyfer cyfarfodydd unigol, gallai'r cleifion gael cymorth gan gyrff allanol i roi cymorth ac arweiniad, megis cyfreithwyr neu wasanaeth eirioli. Roedd teuluoedd a gofalcwyr y claf hefyd yn cael eu cynnwys mewn rhai cyfarfodydd unigol.

Gofal amserol

Roedd y bwrdd iechyd yn cynnal cyfarfodydd telegynadleda ynghylch statws y gwelyau deirgwaith y dydd er mwyn cadarnhau lefelau defnydd y gwelyau. Gwnaed hyn er mwyn nodi unrhyw welyau a oedd ar gael neu'r potensial i ryddhau pobl, ynghyd â'r potensial i dderbyn pobl i'r ward. Roedd y cyfarfodydd hyn yn cynnwys timau cleifion mewnol, timau argyfwng a thimau cymunedol.

Ar adeg ein harolygiad, roedd Ward St Caradog wedi'i dynodi'n ward â 15 o welyau, ond drwy gydol yr arolygiad roedd 17 o gleifion ar y ward. Roedd tri chlaf ychwanegol hefyd a gafodd eu derbyn i welyau cleifion mewnol ar wardiau iechyd meddwl oedolion eraill o fewn y bwrdd iechyd.

Roedd y bwrdd iechyd wedi sefydlu "gwelyau gorlif"³ fel ateb dros dro ym mhob un o'i wardiau iechyd meddwl oedolion er mwyn rhoi ardal lle y gellir derbyn claf i'r ysbyty pan nad oedd unrhyw ystafelloedd gwely gwag. Gwnaed hyn er mwyn helpu i liniaru'r galwadau uniongyrchol ar gapasiti'r gwasanaeth cleifion mewnol, a rhoi'r gofal a'r cymorth priodol yr oedd eu hangen ar y claf.

Er bod angen caniatâd uwch-reolwr i ddefnyddio'r gwelyau gorlif, nid yw'n briodol i'r cleifion gael eu lletya dros dro y tu allan i ystafell wely ddynodedig. Nid oedd y gwelyau gorlif ar Ward St Caradog yn briodol, gan mai pentwr o fatresi oeddent yn hytrach na gwelyau sefydlog. Esboniwyd mai mesur dros dro oedd hyn, ond nid yw'n dderbyniol ac mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod unrhyw wely a ddarperir i glaf yn addas at y diben.

Mae lefelau defnydd gwelyau iechyd meddwl oedolion y bwrdd iechyd yn dangos bod y galw am welyau'n fwy na'r nifer sydd ar gael yn rheolaidd. Drwy gydol yr arolygiad, roedd cleifion yn y ddwy ystafell a oedd wedi cael eu dynodi'n ystafelloedd gwely gorlif, gan olygu bod 17 o welyau ar y ward.

O ganlyniad i lefelau defnydd gwelyau uchel, roedd cleifion ar achlysuron yn cael eu derbyn i ward yn y bwrdd iechyd, y tu allan i'w hardal leol. Roedd hefyd achlysuron pan oedd yn rhaid i wasanaethau y tu allan i'r bwrdd iechyd dderbyn cleifion, nes bod gwely ar gael, fel y gellid eu dychwelyd i'w hardal leol. At ei gilydd, gall hyn wneud i'r cleifion a'u teuluoedd deimlo'n anesmwyth, o ganlyniad i'r pellteroedd o'u cartrefi arferol.

Roedd y ddau wely gorlif ar Ward St Caradog yn rhan o gyfleuster Adran 136⁴ yr ysbyty. Felly, os oedd y gwelyau gorlif yn cael eu defnyddio, byddai'r cyfleuster Adran 136 yn cael ei gau ac ni fyddai ar gael at ei ddiben arfaethedig yn unol â'r Ddeddf Iechyd Meddwl. Cawsom wybod y byddai hyn ond yn digwydd pe bai cyfleusterau Adran 136 eraill ar gael yn y bwrdd iechyd. Fodd bynnag, mae defnyddio cyfleuster Adran 136 arall yn effeithio ar yr unigolyn sy'n dod i'r ysbyty

³ Gwelyau ychwanegol ar ben nifer y gwelyau sydd wedi'u comisiynu ar y ward er mwyn helpu i ateb y galw ar wasanaeth cleifion mewnol y bwrdd iechyd yw gwelyau gorlif.

⁴ Mae Ystafell Adran 136 yn fan diogel dynodedig y gall yr heddlu ddod ag unigolyn iddo er mwyn cynnal asesiad iechyd meddwl.

a'r holl weithwyr proffesiynol sy'n ymwneud â'r achos drwy gynyddu'r gofynion amser a theithio.

Cadarnhaodd yr uwch-reolwyr fod y bwrdd iechyd yn cynnal adolygiad o'i gyfleusterau a'i drefniadau Adran 136 (fel rhan o'r agenda trawsnewid iechyd meddwl ehangach) er mwyn sicrhau ei fod yn diwallu anghenion ei boblogaeth wrth dderbyn pobl i'r ysbyty yn amserol o dan ofynion y Ddeddf Iechyd Meddwl (y Ddeddf). Rydym yn gofyn i'r bwrdd iechyd roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni.

Yn ogystal, nid oes gan y bwrdd iechyd unrhyw welyau adsefydlu a gwella iechyd meddwl oedolion. Mae hyn yn golygu y gall fod angen i rai cleifion aros mewn ward derbyn aciwt nes y bydd yn barod i gael ei ryddhau i wasanaethau cymunedol. Bydd hyn felly yn ymestyn ei arhosiad fel claf mewnol ar ward aciwt o bosibl a thrwy hynny yn llesteirio'r broses adsefydlu a gwella, ac yn oedi'r broses o dderbyn claf arall, o ganlyniad i ddiffyg gwelyau yn y bwrdd iechyd.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd wneud y canlynol:

- Adolygu nifer y gwelyau a'r ddarpariaeth sydd ar gael i wasanaethau iechyd meddwl oedolion, er mwyn sicrhau y gall ddiwallu anghenion ei boblogaeth
- Adolygu ei gyfleusterau a'i drefniadau Adran 136, er mwyn sicrhau ei fod yn diwallu anghenion ei boblogaeth wrth dderbyn pobl i'r ysbyty yn amserol o dan ofynion y Ddeddf Iechyd Meddwl
- Sicrhau bod unrhyw wely a ddarperir i glaf yn briodol.

Gofal unigol

Hawliau pobl

Gwnaethom adolygu'r ffordd y caiff y Ddeddf Iechyd Meddwl (y Ddeddf) a'r Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid eu cymhwyso yn yr ysbyty a'r rhyngweithio rhyngddynt.

Gwnaethom adolygu dwy set o gofnodion lle roedd y cleifion wedi cael eu derbyn i'r ysbyty o dan Adran 2 o'r Ddeddf, ond yn dilyn hynny roeddent wedi cael eu rhyddhau o'u hadran ac y gwnaed cais o dan y Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid. Ni roddwyd sicrwydd i ni fod y bwrdd iechyd yn gweithredu'r setiau o ddeddfwriaeth yn ysbryd y ddau fframwaith cyfreithiol.

Gan adolygu'r ddwy set o gofnodion cleifion a dilyn y canllawiau a nodir yng Nghod Ymarfer Cymru Deddf Iechyd Meddwl 1983, a ddiwygiwyd yn 2016 ym mharagraffau 13.33, 13.38 a 13.49, y ddeddfwriaeth fwyaf priodol i'w defnyddio fyddai'r Ddeddf ac nid y Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid.

Mae'r Ddeddf yn rhoi cyfle i'r claf gael mynediad amserol at Dribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl. Mae'r Ddeddf hefyd yn rhoi'r pŵer i ryddhau i berthynas agosaf y claf o dan Adran 23(2) o'r Ddeddf. Yn ogystal, mae'r defnydd o absenoldeb gyda chaniatâd o dan Adran 17 yn ystyriaeth bwysig, er mwyn profi cleifion pan fyddant yn absennol, cyn eu rhyddhau'n derfynol o'r ysbyty. Ni ellir defnyddio'r rhain pan gânt eu trosglwyddo o'r Ddeddf i'r Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid.

Nodwyd hefyd nad oedd unrhyw asesiadau o alluedd yn cael eu cofnodi yng nghofnodion y cleifion. Felly, nid oedd unrhyw gofnod o asesiad o alluedd i benderfynu a oedd gan y claf y galluedd i wneud penderfyniad hyddysg am y canlynol:

- Rhoi meddyginiaeth o fewn amgylchedd y ward
- Deall y pwyntiau perthnasol sy'n ymwneud â chael ei dderbyn i ward dan glo â'i holl gyfyngiadau cynhenid

Roedd yn galonogol nodi drwy gydol ein trafodaethau â staff y wardiau a'r uwch-reolwyr ynghylch y materion hyn eu bod yn agored, yn onest ac yn ymatebol i'n pryderon.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r Bwrdd Iechyd sicrhau'r canlynol:

- Mae ei bolisi/bolisïau ar y rhyngwyneb rhwng y Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid a'r Ddeddf Iechyd Meddwl yn cydymffurfio â'r gyfraith er mwyn sicrhau nad yw'n wahanol i'r egwyddor yn ôl y gyfraith.
- Mae asesiadau o alluedd yn cael eu cwblhau a'u cofnodi yng nghofnodion cleifion.

Gwrando ar adborth a dysgu ohono

Nid oedd gan y naill ward na'r llall brosesau strwythuredig ar gyfer casglu adborth gan gleifion na pherthnasau a gofawyr. Fel y nodwyd yn gynharach, mae'n rhaid i'r ddwy ward arddangos gwybodaeth am broses Gweithio i Wella y GIG.

Roedd yn gadarnhaol nodi bod arddangosfa fawr o gardiau diolch gan gyn-
gleifion neu eu perthnasau a'u gofalwyr ar Ward St Non.

Darparu gofal diogel ac effeithiol

Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Roedd polisïau a phrosesau sefydledig ar waith i helpu'r staff i ddarparu gofal diogel a chlinigol effeithiol. Gwelsom fod y staff yn cwblhau'r prosesau a'r dogfennau clinigol fel sy'n ofynnol.

Fodd bynnag, mae angen i'r bwrdd iechyd wneud gwelliannau er mwyn helpu'r staff i ddarparu gofal diogel ac effeithiol a chefnogi'r cleifion ar Ward St Non i fod mor annibynnol â phosibl.

Gofal diogel

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Roedd gan y bwrdd iechyd brosesau sefydledig ar waith i reoli ac adolygu risgiau a chynnal iechyd a diogelwch yn yr ysbyty. Roedd hyn yn galluogi'r staff i barhau i ddarparu gofal diogel a chlinigol effeithiol.

Ceir mynediad i'r wardiau yn uniongyrchol o faes parcio'r ysbyty a oedd yn cynnig mynediad addas i bobl ag anawsterau symudedd. Roedd y ddwy ward wedi'u cloi er mwyn atal rhywun rhag cael mynediad heb awdurdod.

Ar y cyfan, roedd y dodrefn, y gosodiadau a'r ffitiadau ar bob ward yn briodol ar gyfer y grwpiau cleifion bwriadedig. Roedd y bwrdd iechyd wedi ymgymryd â gwaith ailwampio gwrthglymu sylweddol er mwyn lleihau'r risg y byddai claf yn hunan-niweidio. Fodd bynnag, ar Ward St Non roedd hyn yn cynnwys tynnu canllawiau o ardaloedd toiledau ac ystafelloedd ymolchi heb osod rhywbeth addas yn eu lle. Mae hyn wedi arwain at leihau annibyniaeth rhai cleifion sydd angen cymorth gan aelodau o'r staff am nad oes canllawiau ar gael. Mae hefyd yn cynyddu'r posibilrwydd y bydd y cleifion hynny sy'n defnyddio'r cyfleusterau heb gymorth y staff yn cwmpo. Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd ddarparu opsiynau addas eraill er mwyn sicrhau bod y cleifion yn gallu bod mor annibynnol â phosibl.

Roedd yn gadarnhaol nodi y rhoddwyd ystyriaeth sylweddol i greu amgylchedd ystyriol o ddementia ar Ward St Non. Roedd hyn yn cynnwys arwyddion darluniadol â lliwiau i helpu'r cleifion i'w hadnabod, a chlociau â wynebau mawr.

Roedd larymau personol ar gael i'r staff y gallent eu defnyddio i alw am gymorth os oedd angen. Roedd mannau galw am nyrs o gwmpas yr ysbyty er mwyn i gleifion alw am gymorth os oedd ei angen.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y cleifion yn cael cymorth i ddefnyddio'r toiledau a'r cyfleusterau ymolchi, a hynny gan fod mor annibynnol â phosibl.

Atal a rheoli heintiau

Roedd trefniadau priodol ar waith i reoli'r broses o atal a rheoli heintiau'n ddiogel yn yr ysbyty.

Roedd archwiliad rheolaidd o reoli heintiau ar waith. Roedd hyn yn cael ei gwblhau gyda'r nod o nodi meysydd i'w gwella fel bod modd cymryd camau priodol lle y bo angen. Roedd hyn yn cynnwys archwiliadau ar y wardiau ac archwiliadau tîm atal a rheoli heintiau'r bwrdd iechyd.

Drwy gydol yr arolygiad gwelsom fod yr ysbyty yn lân yr olwg heb unrhyw annibendod. Roedd yr offer glanhau wedi'u storio a'u trefnu'n briodol. Roedd y bwrdd iechyd yn cyflogi staff cadw tŷ penodol ar gyfer y wardiau.

Roedd amserlenni glanhau ar waith er mwyn hyrwyddo gweithdrefnau glanhau rheolaidd ac effeithiol yn yr ysbyty, ac roedd y staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran atal a rheoli heintiau.

Roedd cyfarpar diogelu personol ar gyfer atal a rheoli heintiau a diheintio ar gael i'r staff yn ôl yr angen.

Roedd cynhyrchion glanhau dwylo ar gael yn y mannau perthnasol o'r ysbyty, fel clinig y ward a'r ardaloedd paratoi bwyd; ar y cyd â'r rhain roedd arwyddion priodol. Er bod sinc yn yr ystafell fwyta, nid oedd unrhyw gyfleusterau sychu dwylo ar gael yn yr ardal hon.

Roedd trefniadau addas ar waith i waredu gwastraff. Roedd biniau priodol ar gael i waredu eitemau miniog meddygol ac nid oedd y rhain wedi'u gorlenwi. Fodd bynnag, er gwaethaf ceisiadau gan y ward, nid oedd unrhyw finiau ar gael i waredu gwastraff meddyginiaethol a fferyllol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau'r canlynol:

- Darperir cyfleusterau sychu dwylo yn ystafell fwyta Ward St Caradog
- Darperir biniau clinigol i wahanu gwastraff meddyginiaethol a fferyllol oddi wrth wastraff arall.

Maeth a hydradu

Roedd y cofnodion gofal a adolygwyd gennym yn dangos bod asesiadau o anghenion bwyta ac yfed y cleifion wedi'u cwblhau. Roedd y wardiau, yn enwedig Ward St Non, yn gallu cael gafael ar gyfarpar arbenigol megis cyllyll a ffyrc a llestri wedi'u haddasu, matiau bwrdd gwrthlithro a giardia platiau. Pan oedd angen, gofynnwyd am fewnbwn gan ddeietegydd a thîm lleferydd ac iaith.

Ar y cyfan, gwelsom fod y cleifion yn cael dewis o brydau bwyd i fodloni eu gofynion a'u dymuniadau unigol. Roedd ffrwythau ffres, byrbrydau a diodydd ar gael ar y ddwy ward. Fodd bynnag, dywedodd y staff fod anawsterau achlysurol wrth ddarparu prydau bwyd heb glwten.

Ar Ward St Caradog, nid oedd nifer digonol o fyrddau a chadeiriau yn yr ystafell fwyta yn dilyn difrod diweddar i'r dodrefn. Cawsom wybod bod y rhain wedi cael eu harchebu ond nad oeddent wedi cael dod i law. Hefyd, roedd dyfeisiau nad oeddent yn gweithio yn ardal y gegin a oedd yn cynnwys micro-don, y peiriant golchi llestri a thostiwr; roedd angen rhai newydd o'r rhain.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau'r canlynol:

- Mae prydau bwyd heb glwten ar gael
- Mae nifer digonol o fyrddau a chadeiriau ar gael ar Ward St Caradog
- Prynir dyfeisiau newydd yn lle'r rhai nad ydynt yn gweithio yn y gegin.

Rheoli meddyginiaethau

Yn gyffredinol, roedd y gwaith o reoli meddyginiaethau ar y ddwy ward yn ddiogel ac yn effeithiol. Roedd meddyginiaethau yn cael eu storio'n ddiogel gyda chypyrddau ac oergelloedd meddyginiaeth dan glo. Roedd mewnbwn rheolaidd gan y fferyllfa ac roedd archwiliadau'n cael eu cynnal a oedd yn helpu'r broses o

reoli, rhagnodi a rhoi meddyginiaeth ar y ddwy ward. Roedd trefniadau priodol ar waith ar y ddwy ward ar gyfer storio a defnyddio Cyffuriau a Reolir a Chyffuriau a all Gael eu Camddefnyddio.

Gwelwyd tystiolaeth bod tymheredd yr oergelloedd meddyginiaeth a'r ystafelloedd clinig yn cael ei wirio'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod meddyginiaethau yn cael eu storio ar y tymheredd a argymhellir gan y gweithgynhyrchydd.

Roedd y siartiau Cofnodion Rhoi Meddyginiaeth (MAR) a adolygwyd yn cael eu llofnodi a'u dyddio'n gyson pan fyddai meddyginiaeth yn cael ei rhagnodi a'i rhoi, a nodwyd y rheswm dros beidio â rhoi meddyginiaeth. Fodd bynnag, ar Ward St Caradog, roedd yn gyffredin gweld nad oedd statws cyfreithiol claf o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl na mesuriadau iechyd corfforol megis mynegai crynswth corfforol, pwysau neu daldra wedi cael eu nodi.

Roedd copïau o'r tystysgrifau cydsynio i driniaeth yn unol â'r Ddeddf Iechyd Meddwl yn cael eu cadw gyda'r siart MAR berthnasol fel y gallai'r nyrsys gadarnhau bod y feddyginiaeth a ragnodwyd (ar gyfer anhwylder meddwl), wedi cael ei hawdurdodi o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl.

Ar y ddwy ward, roedd cyfarpar dadebru brys y gallai'r staff gael gafael arno'n hawdd, gyda thystiolaeth bod gwiriadau dyddiol yn cael eu cwblhau.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod manylion y cleifion yn cael eu cwblhau'n llawn ar siartiau MAR.

Diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg

Roedd gan y bwrdd iechyd bolisïau a phrosesau sefydledig ar waith i sicrhau bod y staff yn diogelu oedolion a phlant a oedd yn agored i niwed, gydag achosion yn cael eu hatgyfeirio at asiantaethau allanol yn ôl y gofyn.

Gofal effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Yn gyffredinol, nodwyd bod trefniadau ar waith a oedd yn helpu i sicrhau bod y staff yn rhoi gofal diogel a chlinigol effeithiol i gleifion.

Roedd amrywiaeth o bolisiâu a gweithdrefnau ysgrifenedig ar gael er mwyn cyfarwyddo ac arwain staff ynghylch darparu gofal diogel ac effeithiol. Roedd y rhain ar gael fel fersiynau electronig ar fewnrwyd y bwrdd iechyd ac roedd rhai ar gael fel copïau papur yn yr ysbyty.

Fodd bynnag, caiff gwelliannau eu nodi drwy gydol yr adroddiad sy'n tanlinellu'r hyn y mae angen i'r bwrdd iechyd ei adolygu a mynd i'r afael ag ef, yn lleol ar y wardiau ac yn ehangach ym mhob rhan o'r bwrdd iechyd.

Cadw cofnodion

Roedd cofnodion cleifion yn gyfuniad o ddogfennau electronig, a oedd wedi'u diogelu gan gyfrinair, a chofnodion papur a oedd wedi'u storio a'u cadw yn y swyddfeydd dan glo.

Roedd cofnodion y cleifion a adolygwyd wedi cael eu ffeilio mewn ffordd systematig. Roedd y staff yn cwblhau cofnodion ffeithiol. Roedd cofnodion yn ymwneud â threfn ddyddiol y cleifion yn fanwl ac roeddent yn rhoi gwybodaeth glir ynglŷn â gofal pob claf.

Monitro Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010: Cynllunio a darparu gofal

Adolygwyd cynlluniau gofal tri chlaf ar Ward St Caradog.

Roedd cofnodion y cleifion a adolygwyd wedi cael eu ffeilio mewn ffordd systematig. Gwelwyd tystiolaeth bod cydgysylltwyr gofal wedi cael eu nodi ar gyfer y cleifion. Roedd y Cynlluniau Gofal a Thriniaeth yn adlewyrchu meysydd Mesur Cymru gydag amcanion mesuradwy, ac roeddent yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Er mwyn cefnogi cynlluniau gofal y cleifion, roedd amrywiaeth o asesiadau cleifion yn cael eu cwblhau er mwyn nodi a monitro eu gofal, ynghyd ag asesiadau risg a oedd yn nodi'r risgiau a nodwyd a sut i'w lliniaru a'u rheoli.

Nid oedd bob amser yn cael ei gofnodi yng nghofnodion cleifion p'un a roddwyd gwybod iddynt am wasanaethau eirioli ai peidio. Fodd bynnag, cadarnhaodd y bwrdd iechyd yn yr adborth ar yr arolygiad fod achos a atgyfeiriwyd at wasanaeth eirioli o fewn 24 awr yn cael ei fonitro a bod hyn yn cael ei gwblhau mewn 90% o achosion, er na welsom dystiolaeth o hyn.

Er bod amrywiaeth o ddogfennau iechyd corfforol, nid oeddent bob amser wedi cael eu cwblhau, ac ni nodwyd y rheswm dros hynny. Felly, nid oeddem yn gallu cadarnhau p'un a oedd y staff yn methu â chwblhau'r dogfennau neu fod y cleifion wedi gwrthod.

Ar Ward St Non, roedd yn gadarnhaol nodi pan nad oedd y cleifion yn gallu nodi eu dewisiadau gofal yn glir y byddai'r staff yn gofyn am farn aelodau o'u teulu.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau'r canlynol:

- Mae cofnodion cleifion yn cofnodi p'un a atgyfeiriwyd achos at wasanaeth eirioli, neu'r rhesymau dros beidio â gwneud hynny
- Mae dogfennau iechyd corfforol yn cael eu cwblhau, neu mae'r rheswm dros beidio â gwneud hynny'n cael ei gofnodi

Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl, y Ddeddf Galluedd Meddyliol a Threfniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid

Adolygwyd dogfennau statudol dau glaf ar Ward St Non. Ceir y manylion yn yr adran Hawliau Pobl yn gynharach yn yr adroddiad hwn.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Ystyriwyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal.

Roedd gan y ddwy ward brosesau a threfniadau archwilio effeithiol i gefnogi'r staff wrth gynnal gofal diogel ac effeithiol.

Roedd arweinyddiaeth frwd, gwaith tîm da a staff llawn cymhelliant a oedd yn darparu gofal pwrpasol i'r cleifion. Roedd y staff yn gadarnhaol am y cymorth yr oeddent yn ei gael gan eu cydweithwyr a'u rheolwyr.

Fodd bynnag, dylid adolygu'r cymysgedd sgiliau a datblygiad staff profiadol er mwyn helpu i ddiwallu anghenion y cleifion yn yr ysbyty.

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Roedd gan yr ysbyty strwythur sefydliadol clir, a oedd yn cynnig llinellau rheoli ac atebolrwydd clir. Roedd y trefniadau hyn wedi'u diffinio'n glir yn ystod y dydd ac roedd trefniadau i uwch-reolwyr a meddygon ar alw ar waith ar gyfer y sifft nos.

Roedd systemau a phrosesau wedi'u diffinio ar waith er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn canolbwyntio ar wella ei wasanaethau'n barhaus. Roedd hyn yn cael ei gyflawni, yn rhannol, drwy raglen dreigl o archwiliadau a'i strwythur llywodraethu sefydledig a oedd yn galluogi aelodau allweddol/enwebedig o staff i gyfarfod yn rheolaidd er mwyn trafod canlyniadau clinigol sy'n gysylltiedig â darparu gofal cleifion.

Roedd rheolwyr y wardiau yn defnyddio dulliau arwain ymroddedig a brwdfrydig ac yn cael eu cefnogi gan dimau amlddisgyblaethol ymrwymedig ac uwch-reolwyr y bwrdd iechyd. Gwelsom fod y staff yn ymrwymedig i ddarparu gofal cleifion i safonau uchel.

Siaradodd y staff yn gadarnhaol am yr arweinyddiaeth a'r cymorth a oedd yn cael eu darparu gan reolwyr y ddwy ward. Dywedodd y staff hefyd fod gwaith tîm a morâl y staff ar y ddwy ward yn dda.

Roedd y ddwy ward yn ceisio darparu lefel uchel o ofal i'r grwpiau cleifion er mwyn cyflymu'r broses o wella a lleihau'r amser yn yr ysbyty. Roedd hyn yn cael ei gefnogi gan gydweithio agos a chynhyrchiol â'r timau iechyd meddwl cymunedol perthnasol.

Siaradodd staff y wardiau hefyd am y cysylltiadau cadarnhaol rhwng y wardiau iechyd meddwl a rhai o'r wardiau a'r timau meddygol yn Ysbyty Cyffredinol Llwynhelyg. Fodd bynnag, cadarnhaodd y staff pe bai digwyddiad lle byddai'n ofynnol i glaf gael pelydr-X, er enghraifft pe bai'n cwmpo, byddai'n rhaid i'r claf fynd i'r adran achosion brys, i gael ei brysbennu a'i gyfeirio wedyn am belydr-X. Gall hyn achosi oedi diangen i'r broses ar gyfer y claf ac effeithio ar amser staff y ward iechyd meddwl a'r adran achosion brys. Dylai'r bwrdd iechyd adolygu'r broses hon.

Roedd system electronig sefydledig ar waith i gofnodi, adolygu a monitro digwyddiadau. Roedd digwyddiadau'n cael eu cofnodi ar y system a oedd yn cynnwys enw'r claf neu'r cleifion a'r staff dan sylw, disgrifiad, lleoliad, amser a hyd y digwyddiad. Roedd unrhyw ddefnydd o atal yn gorfforol yn cael ei ddogfennu.

Roedd hierarchaeth o lofnodi adroddiadau ar ddigwyddiadau a oedd yn sicrhau eu bod yn cael eu hadolygu mewn modd amserol. Roedd adroddiadau ar ddigwyddiadau yn cael eu paratoi a'u hadolygu'n rheolaidd ar lefel yr ysbyty a'r sefydliad fel y gellid eu hadolygu a'u dadansoddi.

Roedd trefniadau ar waith i ledaenu gwybodaeth a gwersi a ddysgwyd o gwynion a digwyddiadau i'r staff yn yr ysbyty a'r sefydliad yn fwy cyffredinol. Mae hyn yn helpu i hyrwyddo diogelwch cleifion a gwella'r gwasanaeth a ddarperir yn barhaus.

Roedd gan y ddwy ward ddogfennau trosglwyddo rhwng sifftiau a oedd yn nodi'r wybodaeth hanfodol ynghylch pob claf yn glir. Roedd hon yn ddogfen gyfeirio dda i unrhyw aelod o'r staff yr oedd angen iddo ddysgu gwybodaeth allweddol am glaf penodol.

Yn ystod ein trafodaethau â staff y wardiau a'r uwch-reolwyr, gwnaethant gynnig enghreifftiau niferus lle roeddent yn adolygu'r gwasanaeth a oedd yn cael ei ddarparu ar y wardiau ac yn y bwrdd iechyd yn fwy cyffredinol. Y nod oedd cynorthwyo'r broses o foderneiddio'r gofal ac arloesi er mwyn datblygu'r gwasanaeth. Fodd bynnag, fel y nodir o dan adran Gofal Amserol yr adroddiad hwn, mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r model gwasanaethau i oedolion er mwyn sicrhau bod gwasanaethau iechyd meddwl i gleifion mewnol yn diwallu anghenion poblogaeth y bwrdd iechyd.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau nad oes oedi diangen cyn i gleifion gael pelydr-X.

Staff ac adnoddau

Y Gweithlu

Roedd nifer o nyrsys cofrestredig profiadol a oedd wedi bod yn gweithio yn y wardiau ers nifer o flynyddoedd. Roedd yr uwch-reolwyr yn siarad yn gadarnhaol am staff-nyrsys yn symud ymlaen i gyfleoedd mewn mannau eraill. Fodd bynnag, roedd hyn yn gadael swyddi gwag a oedd fel arfer yn cael eu llenwi gan staff-nyrsys llai profiadol neu rai a oedd newydd gymhwyso fel nyrsys cofrestredig.

Cadarnhaodd yr uwch-aelodau o staff fod nifer o swyddi gwag ar gyfer nyrsys cofrestredig a bod staff wedi'u recriwtio i'r swyddi hyn. Ar adeg ein harolygiad, nid oedd yr ymgeiswyr wedi dechrau yn eu swyddi eto, gyda rhai o'r bobl a oedd wedi cael eu penodi i'r swyddi gwag ym mlwyddyn olaf eu hyfforddiant ac yn aros i gymhwyso. Roedd hyn yn rhoi peth sicrwydd yr eir i'r afael â swyddi gwag ymhlith y staff, ond bydd gweithlu'r staff yn llai profiadol ac yn ddibynnol ar yr ychydig nyrs cofrestredig yn yr ysbyty, er mwyn sicrhau bod y nyrsys sydd newydd gofrestru yn cwblhau eu tiwtoriaeth, a darparu mentora a chymorth cyffredinol. Dylai'r bwrdd iechyd adolygu'r cymysgedd sgiliau a phrofiad y staff ar gyfer y ddwy ward er mwyn sicrhau bod digon o staff i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion, ynghyd â chymorth cymheiriaid a mentora i'r staff.

Cafodd ei gadarnhau hefyd fod staff banc, nyrsys cofrestredig a gweithwyr cymorth gofal iechyd, yn cael eu defnyddio er mwyn helpu i gyflenwi unrhyw achosion o brinder staff. Roedd hyn yn aml yn cynnwys staff o'r ward ei hun neu aelodau eraill o staff a oedd wedi gweithio yn yr ysbyty yn y gorffennol. Roedd hyn yn rhoi parhad gofal i'r cleifion a'r ysbyty.

Roedd y wybodaeth hyfforddiant a ddarparwyd gan yr uwch-aelodau o'r staff yn dangos bod disgwyl i'r staff gwblhau hyfforddiant gorfodol ar amrywiaeth o bynciau a oedd yn berthnasol i'w rolau. Roedd cydymffurfiaeth hyfforddiant yn cael ei monitro'n rheolaidd a gwelwyd cydymffurfiaeth o 94% ar Ward St Caradog a 79% ar Ward St Non. Ar Ward St Non, roedd angen hyfforddiant gloywi ar nifer o'r staff ar Ymyriadau Corfforol Cyfyngol; mae angen mynd i'r afael â hyn er mwyn sicrhau diogelwch y cleifion, y staff ac ymwelwyr.

Roedd y staff yn cwblhau arfarniadau perfformiad blynyddol ac adolygiadau datblygu. Roedd strwythur goruchwyllo ar waith a chadarnhaodd y staff eu bod wedi cael sesiynau goruchwyllo rheolaidd. Siaradodd y staff yn gadarnhaol hefyd am y sesiynau goruchwyllo grŵp ac ymarfer myfyriol. Roedd cyfarfodydd staff hefyd yn cael eu cynnal ar y ddwy ward.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd wneud y canlynol:

- Rhoi gwybod i AGIC am unrhyw adolygiad o gymysgedd sgiliau a phrofiad y staff
- Sicrhau bod y staff yn cwblhau eu hyfforddiant gorfodol, gan gynnwys Ymyriadau Corfforol Cyfyngol.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgwyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella uniongyrchol gan ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu gwasanaethau iechyd meddwl y GIG

Mae ein harolygiadau o wasanaethau iechyd meddwl y GIG yn cael eu cynnal yn ddirybudd fel arfer. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd am fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau fel maent yn gweithredu fel arfer. Nid yw'r gwasanaeth yn cael unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd yr arolygiad, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol a strategol.

Bydd arolygiadau AGIC o wasanaethau iechyd meddwl y GIG yn ystyried y ffordd y mae gwasanaethau yn gwneud y canlynol:

- Cydymffurfio â [Deddf Iechyd Meddwl 1983](#), [Deddf Galluedd Meddyliol 2005](#), [Mesur Iechyd Meddwl \(Cymru\) 2010](#) a gweithredu Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid
- Cyrraedd [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#)

Rydym hefyd yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill fel y bo'n gymwys. Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn gwasanaethau iechyd meddwl y GIG.

Ceir manylion pellach am y ffordd y mae AGIC yn arolygu [iechyd meddwl](#) a'r [GIG](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut y cafodd y pryder ei uwchgyfeirio gan AGIC	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn.	Ddim yn gymwys	Ddim yn gymwys	Ddim yn gymwys

Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol

Gwasanaeth: Canolfan Bro Cerwyn

Wardiau: Ward St Caradog a Ward St Non

Dyddiad arolygu: 10-12 Mehefin 2019

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella uniongyrchol gan ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn sydd angen ei wella ar unwaith	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw faterion yr oedd angen sicrwydd ar unwaith yn eu cylch	Ddim yn gymwys	Ddim yn gymwys	Ddim yn gymwys	Ddim yn gymwys

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Canolfan Bro Cerwyn

Wardiau: Ward St Caradog a Ward St Non

Dyddiad arolygu: 10-12 Mehefin 2019

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n nodi'r camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod caeadau priodol yn cael eu rhoi ar y draeniau ar Ward St Caradog.	1.1 Hybu, diogelu a gwella iechyd	St Caradog – Ffurflen Ystadau i'w chyflwyno ar gyfer nifer priodol o gaeadau draeniau. Gwaith gofynnol i'w gwblhau gan adran ystadau'r bwrdd iechyd.	Uwch-nyrs Rheolwr Gweithrediadau Ystadau	Cwblhawyd 31/08/19
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod wal allanol yr ardd ar Ward St Caradog yn cael ei glanhau.	1.1 Hybu, diogelu a gwella iechyd	St Caradog – Ffurflen Ystadau i'w chyflwyno er mwyn i wal allanol yr ardd gael ei glanhau Adran Ystadau i gwblhau'r gwaith o lanhau wal allanol yr ardd.	Uwch-nyrs Rheolwr Gweithrediadau Ystadau	Cwblhawyd 31/08/19

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod amrywiaeth o wybodaeth i gleifion yn cael ei harddangos ar y wardiau, gan gynnwys: - Proses Gweithio i Wella y GIG - Canllawiau ynghylch deddfwriaeth iechyd meddwl - Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru Bwyta'n iach a llesiant.	4.2 Gwybodaeth i Gleifion	Bydd y wybodaeth ofynnol yn cael ei chaffael a'i harddangos. Rhoddir system ar waith i adolygu ac arddangos gwybodaeth yn rheolaidd ar draws y gyfarwyddiaeth.	Rheolwr y Ward Penaethiaid Gwasanaethau	31/08/19 30/09/19
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu nifer y gwelyau a'r ddarpariaeth sydd ar gael i wasanaethau iechyd meddwl oedolion, er mwyn sicrhau y gall ddiwallu anghenion ei boblogaeth.	5.1 Mynediad amserol	Adolygiad bwrdd gwaith o'r holl ddata ar Iechyd Meddwl Oedolion i'w gwblhau. Gweithdy Gorchwyl a Gorffen un diwrnod i adolygu data'r adolygiad bwrdd gwaith a gofyn y cwestiwn 'Beth yw'r Ots'. Yn dilyn y gweithdy gorchwyl a gorffen, adroddiad 'Sefyllfa, Cefndir, Asesu, Argymell' (SBAR) drafft i'w gwblhau gyda'r argymhellion i'w cwblhau a'u hanfon at aelodau o'r grŵp gorchwyl a gorffen i'w hadolygu a chytuno arnynt.	Pennaeth y Gwasanaeth Iechyd Meddwl Oedolion Pennaeth Arloesedd Clinigol Strategaeth a Pennaeth Arloesedd Clinigol Strategaeth a	31/08/19 30/09/19 31/10/19

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		Cyflwyno adroddiad SBAR cymeradwy i'r Grŵp Perfformiad Busnes a Chynllunio Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu er mwyn i'r argymhellion gael eu hystyried.		30/11/19
		Adolygu'r argymhellion a'r effaith bosibl ar y prosiect trawsnewid iechyd meddwl/anableddau dysgu.	Pennaeth Arloesedd Clinigol Strategaeth a	31/12/19
		Cyflwyno papur yn seiliedig ar yr argymhellion i'r Grŵp Gweithredu Trawsnewid Iechyd Meddwl/Anableddau Dysgu	Pennaeth Arloesedd Clinigol Strategaeth a	31/01/20
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu ei gyfleusterau a'i drefniadau Adran 136, er mwyn sicrhau ei fod yn diwallu anghenion ei boblogaeth wrth dderbyn pobl i'r ysbyty yn	5.1 Mynediad amserol	Adolygu'r ffordd y darperir gwelyau gorlif ar Ward St Caradog.	Pennaeth Gwasanaeth y	31/08/19
		Nodi lle i ailddarparu gwelyau gorlif mewn man arall ar Ward St Caradog.	Uwch-nyrs	31/08/19

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
amserol o dan ofynion y Ddeddf Iechyd Meddwl.		Cwblhau a chyflwyno costau er mwyn gwneud y lle newydd yn addas at y diben os bydd angen.	Uwch-nyrs a Rheolwr Busnes Iechyd Meddwl Oedolion	30/09/19
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod unrhyw wely a ddarperir i glaf yn briodol.	5.1 Mynediad amserol	Proses i'w chyflwyno i fonitro cynnydd eitemau/gwelyau a brynwyd, sy'n cynnwys proses uwchgyfeirio at uwch-reolwyr yn ôl y gofyn.	Penaethiaid Gwasanaethau	09/08/19
Mae'n rhaid i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod ei bolisi/bolisïau ar y rhyngwyneb rhwng y Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid a'r Ddeddf Iechyd Meddwl yn cydymffurfio â'r gyfraith er mwyn sicrhau nad yw'n wahanol i'r egwyddor yn ôl y ddeddf.	6.2 Hawliau pobl	Yn dilyn adolygiadau o ddeddfwriaeth gyfredol, caiff canllawiau ar y rhyngwyneb rhwng y Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid a'r Ddeddf Iechyd Meddwl eu datblygu ac anfonir fersiwn ddrafft i adran gyfreithiol y Bwrdd Iechyd i'w hadolygu cyn ei chymeradwyo.	Arweinydd Meddygol Iechyd Meddwl Oedolion Hŷn Cydgyssylltydd Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid	31/07/20
Rhaid i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod asesiadau o alluedd yn cael eu cwblhau a'u cofnodi yng nghofnodion cleifion.	6.2 Hawliau pobl	Ychwanegu at y rhestr wirio cyn derbyn – Lle y'i nodwyd, cwblhau asesiad o alluedd penodol i'r penderfyniad a'i gofnodi yng nghofnodion electronig y claf.	Rheolwyr Wardiau	30/09/19

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		Gohebiaeth i'w hanfon at yr holl Nyrsys Cofrestredig sy'n gweithio yng ngwasanaethau cleifion mewnol iechyd meddwl/anableddau meddwl, gan eu hatgoffa o'r gofyniad i gwblhau asesiadau o alluedd a'u cofnodi yng nghofnodion cleifion.	Uwch-nyrsys	31/08/19
		Adolygu'r archwiliad o Gynlluniau Gofal a Thriniaeth ac ystyried monitro cynnwys yr asesiadau o alluedd yn barod i roi'r archwiliadau ar waith mewn lleoliadau cleifion meddwl iechyd meddwl/anableddau dysgu.	Uwch-nyrs Sicrhau Ansawdd a Datblygu Ymarfer	31/08/19
Darparu gofal diogel ac effeithiol				
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y cleifion yn cael cymorth i ddefnyddio'r toiledau a'r cyfleusterau ymolchi, a hynny gan fod mor annibynnol â phosibl.	2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch	Arweinydd Therapi Galwedigaethol St Non i roi cyngor ar fesurau eraill addas i sicrhau bod y cleifion yn cael cymorth i ddefnyddio'r toiled a'r cyfleusterau ymolchi, a hynny gan fod mor annibynnol â phosibl.	Arweinydd Therapi Galwedigaethol ar gyfer Iechyd Meddwl/Anableddau Dysgu	30/09/19
		Adroddiad SBAR i'w ddarparu i'r Grŵp Busnes a Chynllunio Perfformiad Iechyd		30/11/19

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		Meddwl/Anableddau Dysgu yn nodi'r gofynion a'r argymhellion i wneud y cyfleusterau ymolchi yn addas at y diben.	Pennaeth y Gwasanaeth	
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod biniau clinigol ar gael i wahanu gwastraff meddyginiaethol a fferyllol oddi wrth wastraff arall.	2.4 Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi	St Caradog – archebu'r biniau gwastraff clinigol angenrheidiol.	Uwch-nyrs	31/07/19
		Ar ôl eu cyflenwi, biniau gwastraff clinigol i'w rhoi yn y manau priodol.	Rheolwr y Ward	31/08/19
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cyfleusterau sychu dwylo yn ystafell fwyta Ward St Caradog.	2.4 Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi	St Caradog – Dosbarthwr tywelion papur i'w archebu.	Rheolwr y Ward	Cwblhawyd
		Dosbarthwr i'w osod yn yr ystafell fwyta.	Rheolwr Gweithrediadau Ystadau	Cwblhawyd
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod prydau bwyd heb glwten ar gael.	2.5 Maeth a Hydradu	Cysylltu â'r adran arlwygo er mwyn deall pa fwyd heb glwten sydd ar gael a'r broses archebu.	Rheolwr y Ward	15/08/19
		Rhoi gwybod i staff y wardiau am y broses ar gyfer archebu prydau bwyd heb glwten.	Rheolwr y Ward	31/08/19

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod nifer digonol o fyrddau a chadeiriau ar gael ar Ward St Caradog.	2.5 Maeth a Hydradu	St Caradog – Adolygu'r dodrefn presennol yn yr ystafell fwyta.	Rheolwr Ward	31/07/19
		Cyflwyno cais am y dodrefn sydd eu hangen.	Uwch-nyrs	31/08/19
		Archebu'r dodrefn sydd eu hangen.	Rheolwr Busnes Iechyd Meddwl Oedolion	06/09/19
		Cadarnhau bod y dodrefn wedi cyrraedd.	Uwch-nyrs	30/09/19
		Os nad yw'r dodrefn wedi cyrraedd, uwchgyfeirio hyn at Bennaeth y Gwasanaeth.	Uwch-nyrs	30/09/19
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod dyfeisiau newydd yn cael eu prynu yn lle'r rhai nad ydynt yn gweithio yn y gegin.	2.5 Maeth a Hydradu	St Caradog – Dyfeisiau angenrheidiol i'w harchebu.	Rheolwr Busnes	Cwblhawyd
		Cadarnhau bod y dyfeisiau wedi cyrraedd.	Uwch-nyrs	31/08/19
		Os nad yw'r dyfeisiau wedi cyrraedd, uwchgyfeirio hyn at Bennaeth y Gwasanaeth.	Uwch-nyrs	31/08/19

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod manylion y cleifion yn cael eu cwblhau'n llawn ar siartiau MAR.	2.6 Rheoli Meddyginiaethau	Gohebiaeth i'w hanfon at y nyrsys cofrestredig yn nodi'r safon ofynnol.	Rheolwr y Ward	31/08/19
		Y safon i'w chynnwys yn y gwiriadau wythnosol a misol a'i hailddosbarthu drwy'r Fforwm Wardiau.	Uwch-nyrs y Tîm Sicrhau Ansawdd a Datblygu Ymarfer	31/08/19
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cofnodion cleifion yn cofnodi p'un a atgyfeiriwyd achos at wasanaeth eirioli, neu'r rhesymau dros beidio â gwneud hynny.	Monitro'r Mesur Iechyd Meddwl	Gohebiaeth i'w hanfon at holl aelodau'r staff nyrsys cofrestredig yn eu hatgoffa am y gofyniad i gofnodi yn y ddogfennaeth partner gofal bod achos wedi cael ei atgyfeirio i wasanaeth eirioli.	Uwch Nyrsys	31/08/19
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y dogfennau iechyd corfforol yn cael eu cwblhau, neu fod y rheswm dros beidio â gwneud hynny'n cael ei gofnodi.	Monitro'r Mesur Iechyd Meddwl	Gohebiaeth i'w hanfon at y staff nyrsys cofrestredig yn eu hatgoffa bod yn rhaid cofnodi ar y ffurflen ac yn y ddogfennaeth partner gofal pan nad oes angen asesiad risg iechyd corfforol.	Uwch-nyrsys	31/08/19
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau nad oes oedi diangen cyn i gleifion gael pelydr-X.	Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd	Er mwyn deall cyd-destun yr argymhelliad hwn, cynhelir adolygiad o'r amseroedd aros ar gyfer y cleifion hynny sydd wedi cael pelydr-X dros y 12 mis diwethaf.	Rheolwr y Ward	31/08/19
			Uwch-nyrs	30/09/19

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		Ar ôl cwblhau'r adolygiad a chadarnhau achos sylfaenol yr oedi, caiff cynllun gweithredu ei ddatblygu. Cyflwynir y cynllun gweithredu ac adroddiad arno i'r Is-bwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad Iechyd Meddwl/Anableddau Dysgu	Pennaeth y Gwasanaeth	30/11/19
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd roi gwybod i AGIC am unrhyw adolygiad o gymysgedd sgiliau a phrofiad y staff.	7.1 Y Gweithlu	Mae'r ddwy ward wedi cyfranogi mewn adolygiad o aciwtedd a lefelau staffio, fel rhan o raglen staff nyrsio Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda. Mae'r Uwch-nyrsys a Rheolwyr y Wardiau'n mynychu cyfarfod dangosyddion perfformiad allweddol sy'n adolygu lefelau staffio ac yn craffu ar y rhain mewn perthynas ag aciwtedd/absenoldeb/cynllunio rota. Caiff cofnod o'r camau gweithredu ei gwblhau a'i nodi drwy drefniadau llywodraethu mewnol. Pan fo angen, caiff camau gweithredu eu huwchgysfeirio at y Cyfarwyddwr Iechyd Meddwl/Anableddau Dysgu.	Pennaeth Nyrsio Pennaeth Nyrsio	Cwblhawyd Cwblhawyd

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn cwblhau eu hyfforddiant gorfodol, gan gynnwys Ymyriadau Corfforol Cyfyngol.	7.1 Y Gweithlu	System i'w rhoi ar waith lle cyflwynir cofnodion hyfforddiant gorfodol drwy gyfarfodydd dangosfwrdd gweithredol a'r Grŵp Perfformiad Busnes a Sicrwydd Cynllunio Iechyd Meddwl/Anableddau Dysgu.	Uwch-nyrs	Cwblhawyd
		Hyfforddiant gorfodol i'w fonitro/drafod Arfarniadau ac Adolygiadau Datblygu Personol y staff	Rheolwr y Ward	Cwblhawyd

Mae'n rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (llythrennau bras): Kay Isaacs Pennaeth y Gwasanaeth Iechyd Meddwl Oedolion /
Melanie Evans Pennaeth y Gwasanaeth Iechyd Meddwl/Anableddau Dysgu Oedolion Hŷn

Teitl swydd: Prif Nyrs / Rheolwr Gwasanaeth

Dyddiad: 29 Gorffennaf 2019